NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

CYMRU

# RHESTR WIRIO POLISÏAU CYFLOGAU YSGOLION

## DIBEN Y RHESTR WIRIO

Ar 29 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) ei Ail Adroddiad, a oedd yn cynnwys argymhellion ar ddyfarniad cyflog athrawon ar gyfer 2020/21.

Gwnaeth yr IWPRB gyfres o argymhellion arloesol ar gyflog athrawon, a dderbyniwyd gan y Gweinidog Addysg ac sydd yn awr wedi'u hymgorffori yn Nogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (STPC(W)D).

Mae'r NASUWT yn credu bod polisi cyflogau teg, tryloyw a chyson, sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo athrawon fel gweithwyr proffesiynol medrus, yn elfen allweddol i wella ysgolion.

Bydd polisïau cyflogau ysgolion sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau yn y rhestr wirio hon yn helpu i recriwtio, cadw a chymell athrawon, yn sail i gynllunio ariannol a phersonél cadarn ac yn lleihau'r risg o gwynion a gwahaniaethu.

Mae'r rhestr wirio yn cyflwyno'r gofynion sylfaenol ar gyfer polisi cyflogau effeithiol ac mae'n gydnaws â'r darpariaethau statudol ar gyfer cyflogau athrawon a ddaeth i rym ar 1 Medi 2020.

Nid yw cyhoeddi rhestr wirio'r NASUWT yn golygu derbyn newidiadau i'r system cyflogau athrawon a gyflwynwyd neu a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

## PENDERFYNIADAU CYFLOG AR GYFER MEDI 2020

### *Cymhathu Cyflogau*

- Bydd yr ysgol yn cymhathu pob athro i'r pwynt cyflog 2019 priodol.
- Dylai unrhyw athro nad yw eu cyflog presennol yn cyfateb yn union i bwynt o'r fath gael eu cymhathu i'r pwynt graddfa uchaf nesaf.
- Bydd athrawon sydd ar neu sydd wedi'u cymhathu ar bwynt graddfa M6a a M6b ar raddfeydd cynghorol 2019 yn cael eu huwchraddio i bwynt graddfa M6 (uchafswm) Prif Raddfa Gyflog 2020.

### *Dyfarniadau Cyflog*

- Bydd yr ysgol yn mabwysiadu'r graddfeydd cyflog statudol cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn yr STPC(W)D.
- Bydd yr ysgol yn gweithredu'r newid i'r graddfeydd cyflog cenedlaethol drwy roi athrawon ar bwynt cyflog cyfatebol neu uwch, ac yna gweithredu unrhyw godiad cyflog seiliedig ar berfformiad i'r athro, fel bydd yn briodol.

### *Dilyniant Cyflogau*

- Dyfernir i athrawon ar bwyntiau graddfa M1 i M5 ar y Brif Raddfa Gyflogau godiad cyflog o un pwynt ar ôl cwblhau blwyddyn o gyflogaeth fel athro cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai bod yr athro wedi bod yn destun proses galluogrwydd ffurfiol.

**PENDERFYNIADAU CYFLOG O FEDI 2020**

*Penderfynu ar gyflogau*

- Bydd yr ysgol yn penderfynu ar gyflog athro/athrawes yn flynyddol ac yn hysbysu'r athro/athrawes yn ysgrifenedig o'r penderfyniad ynglŷn â'u cyflog erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, a bydd mewn grym o 1 Medi'r flwyddyn honno.
- Bydd yr ysgol yn sicrhau nad yw perfformiad bellach yn cael ei ddefnyddio fel maen prawf i asesu cyflogau o fewn ystodau cyflog, a bod athrawon yn symud i fyny un pwynt o'u graddfeydd cyflog cenedlaethol newydd eu cyflwyno yn flynyddol.
- Yr unig eithriad yw lle mae athrawon yn destun proses galluogrwydd ffurfiol.

*Pennu cyflog rhai a benodwyd/cynnal 'hygludedd cyflog'*

Argymhellodd yr IWPRB fod 'hygludedd cyflog' yn cael ei ailgyflwyno'n statudol ym mis Medi 2021, ac y bydd maen prawf yn cael ei ddatblygu i'r perwyl hwnnw.

- Mae'r ysgol wedi ymroi i'r egwyddor o hygludedd cyflog a bydd yn defnyddio'r egwyddor hon wrth wneud pob penodiad newydd.

*Pennu ystod cyflogau ar gyfer swyddi addysgu gwag*

- Ni fydd yr ysgol yn cyfyngu ar y cyflog sydd ar gael i'r rhai a benodir i swyddi gwag ar gyfer athrawon dosbarth, ac eithrio terfyn isaf y Brif Ystod cyflog a therfyn uchaf yr Ystod cyflog Uwch.

*Y Brif Ystod cyflog*

- Bydd athrawon ar y Brif Ystod cyflog yn cael eu talu ar y raddfa pum pwynt ar y Brif Ystod cyflog isod.

*Y Brif Ystod cyflog – codiad cyflog*

- Dyfernir codiad cyflog i athrawon yn flynyddol o un pwynt o leiaf ar y Brif Ystod cyflog.
- Os, yn dilyn adolygiad rheoli perfformiad/arfarniad, y bernir fod y perfformiad yn eithriadol, yna gall athrawon cael codiad cyflog o fwy nag un pwynt.
- Bydd athrawon yn ystod eu blwyddyn gynefino yn cael codiad cyflog pan fyddant wedi cwblhau'r cyfnod cynefino'n llwyddiannus.
- Pan fydd athrawon yn destun proses galluogrwydd ffurfiol, gellir gwneud penderfyniad i ddal eu codiad cyflog yn ôl.

*Symud o'r Brif Ystod cyflog i'r Ystod cyflog Uwch*

- Bydd athrawon sy'n gwneud cais i symud i'r Ystod cyflog Uwch yn derbyn codiad i'r Ystod honno ar ôl ystyried y ddau adolygiad rheoli perfformiad/arfarnu diwethaf.
- Bydd yr adolygiad yn cael ei ystyried yn un llwyddiannus oni bai bod yr athro wedi'i roi ar gam ffurfiol o'r broses galluogrwydd.

*Ystod cyflog Uwch*

- Bydd athrawon ar yr Ystod cyflog Uwch yn cael eu talu ar y raddfa tri phwynt isod.

*Yr Ystod cyflog Uwch – codiad cyflog*

- Dyfernir codiad cyflog i athrawon bob dwy flynedd o un pwynt o leiaf ar yr Ystod cyflog Uwch yn dilyn adolygiad rheoli perfformiad/arfarnu llwyddiannus.
- Gellir dyfarnu codiad cyflog yn flynyddol os bernir fod eu perfformiad yn eithriadol.

- Caiff yr adolygiad ei ystyried yn llwyddiannus oni bai bod yr athro wedi'i roi ar gam ffurfiol o broses galluogrwydd.

*Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (TLR)*

- Caiff taliadau TLR1 a TLR2 eu dyrannu'n unol â'r meini prawf isod.
- Ni fydd disgwyl i athrawon ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol parhaus heb daliad TLR1 neu TLR2 parhaol.
- Bydd meini prawf clir yn cael eu nodi ar gyfer dyfarnu, lefel a hyd taliadau TLR3 sy'n gyfyngedig o ran amser. Bydd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal â chynrychiolwyr undebau a chytundeb â'r NASUWT cyn y gwneir penderfyniad i wneud unrhyw daliad o'r fath.

*Graddfa gyflog Ymarferwyr Arwain*

Nid yw'r STPC(W)D yn cynnwys graddfa gyflog ar gyfer ymarferwyr arwain ond mae'n cynnwys ystod yn unig. Er hynny, mae'r STPC(W)D yn rhoi gofyniad ar y corff perthnasol i benderfynu ar ystod cyflog unigolyn o fewn y raddfa gyflog ymarferwyr arwain. I hwyluso hyn, mae'r NASUWT wedi cyhoeddi Graddfa Gyflog Ymarferwyr Arwain.

- Bydd yr ysgol yn gweithredu graddfeydd cyflog yr NASUWT yn achos yr holl ymarferwyr arwain a bydd yn penodi pob ymarferydd arwain ar ystod pum pwynt o'r raddfa a ddangosir isod.

*Graddfa gyflog arweinyddion*

- Bydd yr ysgol yn gweithredu'r raddfa arweinyddiaeth ar gyfer holl arweinyddiaeth yr ysgol a bydd yn penodi unrhyw arweinyddion ar ystod briodol o'r raddfa a ddangosir isod.
- Bydd yr ysgol yn penodi penaethiaid ar ystod cyflog saith pwynt, a dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol ar ystod bum pwynt o'r raddfa a ddangosir isod.

*Gweithdrefnau apelio*

- Mae gan athrawon hawl i gyflwyno sylwadau ac i apelio yn erbyn unrhyw agwedd ar eu cyflog neu eu codiad cyflog yn unol â gweithdrefn apelio o fewn y polisi sy'n cydymffurfio, fan leiaf, â'r gofynion statudol ar ddatrys anghydfodau.

*Monitro ac adolygu'r polisi*

- Bydd y polisi'n cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol gan y corff perthnasol ar y cyd â chynrychiolwyr undebau. Bydd adroddiad blynyddol ysgrifenedig ar weithredu'r polisi cyflogau, cofnodi penderfyniadau a wnaed ar gyflogau a'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei ddarparu ar gyfer cynrychiolwyr undebau.

**Graddfeydd Cyflog**

| Y Brif Raddfa Gyflog | 2020 |
|---|---|
| **M1 (isafswm)** | £27,018 |
| **M2** | £27,018 |
| **M3** | £29,188 |
| **M4** | £31,436 |
| **M5** | £33,912 |
| **M6 (uchafswm)** | £37,320 |

| Y Raddfa Gyflog Uchaf | 2020 |
|---|---|
| **Uchaf U1** | £38,690 |
| **U2** | £40,124 |
| **Isaf U3** | £41,604 |

| Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu | 2020 |
|---|---|
| **TLR 1** | £8,291- £14,030 |
| **TLR 2** | £2,873 - £7,017 |
| **TLR 3** | £571 - £2,833 |

**Meini Prawf ar gyfer taliadau TLR1 a TLR2**

Cyn dyfarnu taliad TLR1 neu TLR2, rhaid i'r ysgol gael ei bodloni bod dyletswyddau'r athro'n cynnwys cyfrifoldeb sylweddol nad yw'n ofynnol gan bob athro dosbarth a bod:

(a) yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu;

(b) yn galw am ddefnyddio sgiliau a barn broffesiynol athro/athrawes;

(c) yn gofyn i'r athro/athrawes arwain, rheoli a datblygu pwnc neu faes cwricwlwm, neu arwain a rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm;

(d) yn cael effaith ar gynnydd addysgol disgyblion ar wahân i'r dosbarthiadau neu'r grwpiau o ddisgyblion a aseiniwyd i'r athro/athrawes; ac

(e) yn cynnwys arwain, datblygu a gwella arferion addysgu staff eraill.

Hefyd, cyn dyfarnu TLR1, rhaid i'r ysgol fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb sylweddol y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cyfrifoldeb rheolwr llinell dros nifer sylweddol o bobl.

**Ymarferwyr Arwain**

| Graddfa | 2020 | Graddfa | 2020 |
|---|---|---|---|
| **Lleiafswm 1** | £42,402 | **10** | £52,983 |
| **2** | £43,465 | **11** | £54,357 |
| **3** | £44,550 | **12** | £55,610 |
| **4** | £45,658 | **13** | £57,000 |
| **5** | £46,796 | **14** | £58,421 |
| **6** | £47,969 | **15** | £59,875 |
| **7** | £49,261 | **16** | £61,467 |
| **8** | £50,397 | **17** | £62,878 |
| **9** | £51,656 | **Uchafswm 18** | £64,461 |

**Athrawon heb gymhwyso**

| Scale Point | 2020 |
|---|---|
| **Lleiafswm 1** | £18,169 |
| **2** | £20,282 |
| **3** | £22,394 |
| **4** | £24,507 |
| **5** | £26,622 |
| **Uchafswm 6** | £28,735 |

**Grŵp Arweinyddiaeth**

| Graddfa | 2020 | Graddfa | 2020 |
|---|---|---|---|
| **L1** | £42,195 | **L23** | £72,497 |
| **L2** | £43,251 | **L24** | £74,295 |
| **L3** | £44,331 | **L25** | £76,141 |
| **L4** | £45,434 | **L26** | £78,025 |
| **L5** | £46,566 | **L27** | £79,958 |
| **L6** | £47,735 | **L28** | £81,942 |
| **L7** | £49,019 | **L29** | £83,971 |
| **L8** | £50,151 | **L30** | £86,061 |
| **L9** | £51,402 | **L31** | £88,187 |
| **L10** | £52,723 | **L32** | £90,379 |
| **L11** | £54,091 | **L33** | £92,624 |
| **L12** | £55,338 | **L34** | £94,914 |
| **L13** | £56,721 | **L35** | £97,273 |
| **L14** | £58,135 | **L36** | £99,681 |
| **L15** | £59,581 | **L37** | £102,159 |
| **L16** | £61,166 | **L38** | £104,687 |
| **L17** | £62,570 | **L39** | £107,239 |
| **L18** | £64,143 | **L40** | £109,914 |
| **L19** | £65,735 | **L41** | £112,660 |
| **L20** | £67,364 | **L42** | £115,483 |
| **L21** | £69,031 | **L43** | £117,197 |
| **L22** | £70,745 | | |